



## **CWRS SGILIAU YMCHWIL CENEDLAETHOL**

### **BANGOR**

**Dydd Mawrth a Dydd Mercher, 14 & 15 Tachwedd 2017**

ar gyfer:

Myfyrwyr ôl-radd o bob prifysgol yng Nghymru – p'un a ydynt yn astudio ar gyfer gradd Meistr neu'n cynnal ymchwil ar gyfer doethuriaeth neu ymchwil ôl-ddoethurol.

# **COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL**

## **CWRS SGILIAU YMCHWIL CENEDLAETHOL**

### **BANGOR**

#### **Dydd Mawrth a Dydd Mercher, 14 & 15 Tachwedd 2017**

Darperir yr hyfforddiant sgiliau ymchwil hwn gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn partneriaeth â sefydliadau addysg uwch Cymru. Hon yw'r unig raglen o hyfforddiant ymchwil a geir yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.

Datblygwyd y Rhaglen mewn cydweithrediad â'r sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, ac mae'r holl weithdai wedi'u mapio yn erbyn Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae.

Am fanylion pellach, cysyllter â Dr Dylan Phillips trwy e-bost neu'r ffôn:  
[d.phillips@colegcymraeg.ac.uk](mailto:d.phillips@colegcymraeg.ac.uk) neu 01267 245677.

## **Diwrnod 1 – Dydd Mawth, 14 Tachwedd**

10.30 – 10.45 Cyrraedd, croeso a choffi

10.45 – 11:15 **sesiwn torri'r ia**

11.15 – 12.45 **sesiwn 1**

- 'Cyfieithu, trawsieithu a rheoli termau' – Delyth Prys

12.45 – 13.30 cinio

13.30 – 15.00 **sesiwn 2**

- 'Defnyddio arfau iaith cyfrifiadurol' – Dr Llion Jones

15:00 – 15:15 coffi / te

15.15 – 16.45 **sesiwn 3**

- 'Rhoi Graen ar eich Gwaith' – Dr Leila Salisbury

16.45 – 17.00 coffi / te

17.00 – 18.30 **sesiwn 4**

- 'Cydweithio ar gyfer ymchwilwyr' – Dr Gwawr Ifan

18.45 – swper / bar

## **Diwrnod 2 – Dydd Mercher, 15 Tachwedd**

08.00 – 09.00 Brecwast

09.30 – 11.00 **Sesiwn 5**

- ‘Dod o hyd i wybodaeth - dysgu rhagor (chwilio'r we a chronfeydd data llyfryddol)’ –  
Mairwen Owen

11.00 – 11.15 Coffi / te

11.15 – 12.45 **Sesiwn 6**

- ‘Ysgrifennu a chyflwyno papur cynhadledd’ – Yr Athro Owain ap Gwilym

12.45 – 13.15 Cinio

13.15 – 14.45 **Sesiwn 7**

- ‘Yr Ymchwilydd Ansoddol’ – Dr Sara Wheeler

14.45 – 15.00 Coffi / te

15.00 – 16.30 **Sesiwn 8**

- ‘Cyfrannu at waith tîm’ – Nia Meacher

16.30 Cloi a gadael

## DISGRIFIADAU GWEITHDAI

### 'Cyfieithu, Trawsieithu a Rheoli Termau' - Delyth Prys

Mae Delyth Prys yn bennaeth Uned Technolegau Iaith, Canolfan Bedwyr. Bu'n rhedeg ei chwmmi cyfieithu ei hun am bedair blynedd ar ddeg cyn dod yn brif olygydd y Ganolfna Safoni Termau ym Mhrifysgol Bangor. Erbyn hyn mae gwaith ei thîm yn cynnwys creu meddalwedd prawfddarllen Cysill, meddalwedd cyfieithu Cyfieithu Cymru, a darpariaeth termau Geiriaduron Termau Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg a'r Porth Termau Cenedlaethol.

Bydd y gweithdy hwn o ddiddordeb i unrhyw un sy'n gorfod darlithio, creu deunyddiaeth, ysgrifennu papurau mewn amgylchedd dwyieithog gan symud yn ôl ac ymlaen yn gyson rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn eu bywyd academaidd.

#### **Amcanion y gweithdy:**

Galluogi addysgwyr cyfrwng Cymraeg i gynhyrchu Cymraeg academaidd yn hyderus mewn amgylchedd dwyieithog.

#### **Cynnwys:**

1. Egwyddorion gweithio yn y Gymraeg mewn amgylchedd dwyieithog.
2. Deall y prosesau gwybyddol o gasglu gwybodaeth mewn un iaith a'u mynegi mewn iaith arall
3. Rhai technegau ymarferol i wella Cymraeg academaidd ac osgoi dylanwad y Saesneg
4. Arddangos y deunyddiau terminolegol Cymraeg sydd ar gael
5. Trafodaeth ar broblemau penodol o brofiad unigolion

#### **Deilliannau Dysgu:**

- Dealltwriaeth o sut mae'r Saesneg yn dylanwadu ar Gymraeg academaidd a sut mae osgoi hynny
- Medru defnyddio'r Gymraeg yn fwy hyderus i ysgrifennu a chyflwyno deunyddiau academaidd
- Gallu defnyddio offer iaith megis cymhorthion sillafu a gramadeg, a geiriaduron, wrth baratoi eu deunyddiau dysgu eu hunain.

## 'Defnyddio arfau iaith cyfrifiadurol' - Dr Llion Jones

Mae gan Dr Llion Jones dros chwarter canrif o brofiad dysgu yn y sector addysg uwch. Yn ystod y cyfnod hwnnw, y mae wedi datblygu a chyflwyno nifer o gyrsiau arloesol trwy gyfrwng y Gymraeg ym maes technoleg gwybodaeth a'r cyfryngau newydd. Mae ganddo hefyd brofiad helaeth o ddarparu cyrsiau proffesiynol ar sut i ddefnyddio'r Gymraeg yng nghyd-destun gwahanol gyfryngau. Ef yw Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Bangor.

### Amcanion y gweithdy:

- Darparu cyflwyniad ymarferol i'r adnoddau cyfrifiadurol sydd ar gael i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yng nghyd-destun Addysg Uwch, gyda sylw penodol i becyn *Cysgliad*.

### Cynnwys:

1. Cyflwyniad i'r gwahanol adnoddau cyfrifiadurol sydd ar gael i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yng nghyd-destun Addysg Uwch;
2. Cyfres o ymarferion perthnasol yn defnyddio'r adnoddau cyfrifiadurol

### Deilliannau Dysgu:

- Cyfarwydd â gwahanol arfau iaith cyfrifiadurol ac yn hyderus i'w defnyddio.

## 'Rhoi Graen ar eich Gwaith' - Dr Leila Salisbury

Mae Leila Salisbury yn Gynghorwr Astudio yng Nghanolfan Sgiliau Astudio, Prifysgol Bangor. Graddiodd yn 2013 gyda Doethuriaeth o Ysgol Cerddoriaeth, Prifysgol Bangor, ac ers Medi 2012, yn rhinwedd ei swydd fel Cynghorwr Astudio, mae Leila wedi bod yn gweithio fel rhan o dîm sy'n anelu at gynorthwyo israddedigion a myfyrwyr ôl-radd i ddatblygu'r strategaethau a'r prosesau a fydd yn gymorth i fyfyrwyr fanteisio i'r eithaf ar eu hastudiaethau. Gweithia'r Ganolfan Sgiliau Astudio yn agos gydag ysgolion academaidd i gefnogi ac ategu'r ddarpariaeth bwnc benodol o fewn y disgyblaethau, ac i ledaenu arferion da. Mae gan Leila brofiad o gydweithio'n agos gyda staff a myfyrwyr mewn nifer o wahanol ysgolion academaidd ym maes sgiliau ymchwil.

Bydd y gweithdy hwn o ddiddordeb i fyfyrwyr ymchwil sy'n dymuno archwilio dulliau o fireinio, golygu a phrawf-ddarllen eu gwaith ysgrifenedig, ac i'r perwyl hwn byddai dod â drafft o waith i'r gweithdy yn fuddiol.

### Amcanion y gweithdy hwn yw:

- Datblygu sgiliau mireinio, golygu a phrawf-ddarllen myfyrwyr ymchwil
- Trafod beth mae'n ei olygu i fireinio testun ysgrifenedig
- Cyflwyno strategaethau a thechnegau y gellir eu rhoi ar waith yn ystod y broses ailddrafftio
- Mynd i'r afael â dulliau o greu dadl gydlynol

### Cynnwys:

1. Ymdrin â disgwyliadau academaidd
2. Trafod y gwahaniaeth rhwng 'ysgrifennu' a 'golygu'
3. Cyflwyno golygu a phrawf-ddarllen – trafod mewn grwpiau
4. Tasg adnabod gwallau cyffredin – gweithio ar ddrafft
5. Amlinellu'r cwestiynau y gellir eu gofyn wrth ailddrafftio
6. Tasg 'gwneud y cyfarwydd yn ddieithr' – gwaith pâr
7. Rhestr wirio – taflen waith
8. Rhoi trefn ar eich syniadau, gan chwilio am ddadl sy'n dal dŵr
9. Cyflwyno strategaethau i gynorthwyo gyda'r broses olygu:
  - a. Siarad drwyddo
  - b. Adrannu
  - c. Paragraffu
  - ch. Cynllunio ôl-weithredol

### Ar ddiwedd y gweithdy hwn dylai hyfforddeion fod yn gallu:

- Gweld pwysigrwydd rhoi amser i olygu ac ailddrafftio gwaith ysgrifenedig
- Bod yn ymwybodol o wahanol strategaethau a thechnegau i'w defnyddio wrth olygu a phrawf-ddarllen
- Trafod eu pwnc yn hyderus, gan roi sylw i'r ffordd maent yn egluro eu pwnc i eraill, ar lafar ac yn ysgrifenedig
- Adnabod eu gwallau cyffredin, er mwyn eu canfod a'u datrys ar gyfer tro nesaf
- Rhoi trefn ar eu syniadau, drwy ddefnyddio gwahanol dechnegau

## 'Cydweithio ar gyfer ymchwilwyr' - Dr Gwawr Ifan

Darlithydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn Ysgol Cerddoriaeth, Prifysgol Bangor yw Gwawr Ifan. Mae pwnc ei doethuriaeth, sef Cerddoriaeth mewn lechyd a Lles, yn un sy'n cwmpasu nifer o feysydd gwahanol. Golygodd hyn ei bod wedi cydweithio gyda nifer o ymchwilwyr o wahanol gefndiroedd ac arbenigedd ar gyfer ei hymchwil. Yn 2012 cydweithiodd ar fodiwl newydd sy'n pontio rhwng myfyrwyr Cerddoriaeth a myfyrwyr Cymdeithaseg, ac mae llawer o'i gwaith ymchwil cyfredol i faes cerddoriaeth a dementia yn golygu ei bod yn cydweithio gyda gwahanol ysgolion academaidd yn ogystal â sefydliadau y tu hwnt i'r Brifysgol. Mae'r gweithdy hwn wedi ei seilio ar gwrs 'NonZero Sum' a grëwyd gan Nathan Ryder fel rhan o raglen 'Vitae Innovate 2010'.

### Amcanion y gweithdy hwn:

Mae sgiliau cydweithio yn ystyriaeth allweddol bwysig ar gyfer unrhyw ymchwilydd. Wrth gwrs, mae gallu gweithio mewn tîm yn bwysig, ond nid yw hyn ar ben ei hun yn ddigon. Bwriad y gweithdy hwn yw tynnu sylw at werth cydweithio, cynllunio sut i fynd ati i wneud hyn yn llwyddiannus a hefyd ystyried sut mae gweithio gyda phobl o wahanol arbenigedd er mwyn creu rhywbeth newydd.

### Cynnwys:

**Drwy gyfrwng cyfres o gemau a thasgau hwyliog ac anffurfiol, bydd y gweithdy ymarferol hwn yn rhoi cyfle i ystyried:**

- Beth sy'n ein galluogi i gydweithio'n llwyddiannus
- Gwahanol ddulliau o gydweithio fel ymchwilwyr
- Beth yw'r prif anawsterau sy'n codi wrth gydweithio
- Sut mae mynd ati i wella'r modd yr ydym yn cydweithio

**Byddwn hefyd yn helpu cyfranogwyr i fynd i'r afael â'r canlynol:**

- |                              |  |
|------------------------------|--|
| • <b>Medrau gwybyddol</b>    | • <b>Rheolaeth bersonol</b>                |
| ◦ Meddwl yn feirniadol       | ◦ Rheoli amser yn effeithiol               |
| ◦ Datrys problemau           | • <b>Datblygiad proffesiynol a gyrfaol</b> |
| • <b>Creadigrwydd</b>        | ◦ Rhwydweithio                             |
| ◦ Meddwl ymchwilgar          | • <b>Gweithio gydag eraill</b>             |
| • <b>Nodweddion personol</b> | ◦ Cydweithio                               |
| ◦ Brwdfrydedd                | ◦ Gwaith tîm                               |



## **'Dod o hyd i wybodaeth - dysgu rhagor (chwilio'r we a chronfeydd data llyfryddol)' - Mairwen Owen**

Addysgwyd Mairwen Owen yn lleol ac ym Mholytechnig Lerpwl lle cafodd HND mewn Astudiaethau Busnes. Cafodd BA mewn Gwyddorau Cymdeithas o'r Brifysgol Agored ac, yn ddiweddar, cwblhaodd radd MSc(Econ) mewn Rheolaeth Gwybodaeth a Llyfrgell trwy ddysgu o bell o'r Adran Astudiaethau Gwybodaeth yn Aberystwyth.

Cyn dechrau ar yrfa mewn llyfrgellyddiaeth bu Mairwen Owen yn gweithio am dros wyth mlynedd fel Clerc Llys/Uwch Swyddog Gweinyddol yn Swyddfa Clerc yr Ynadon yng Nghaernarfon. Mae ganddi brofiad o weithio mewn llyfrgelloedd cyhoeddus, addysg ac arbennig. Arferai weithio fel Llyfrgellydd Cynorthwyol yng Ngholeg Menai ac fel llyfrgellydd pwnc (rhannu swydd) i'r Ysgol Addysg a'r Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer.

Mae'n rhaid defnyddio gwahanol ffynonellau gwybodaeth er mwyn dod o hyd i wahanol fathau o wybodaeth academaidd. Gall y gwahanol fathau o ffynonellau sydd fwyaf defnyddiol amrywio yn dibynnu ar faes eich pwnc academaidd. Yn ystod y sesiynau ymchwiliwn y mathau o ffynonellau sydd ar gael i ymchwiliwyr eu gwerthuso ac edrychwn ar strategaethau chwilio.

### **Sesiwn 2: Dod o hyd i wybodaeth - dysgu rhagor**

- Cronfeydd data a Google Scholar
- Chwilio'r we yn ddeallus
- Strategaeth chwilio ymhellach - cofnodi chwiliadau
- Chwilio am draethodau hir

## 'Ysgrifennu a Chyflwyno Papur Cynhadledd' – Yr Athro Owain ap Gwilym

Mae Owain ap Gwilym yn Athro mewn Cyllid ac yn ddirpwy bennaeth yr Ysgol Fusnes ym Mhrifysgol Bangor. Mae ei brif ddyletswyddau yn ymwneud ag arwain rhaglenni a modiwlau i olraddedigion yr Ysgol Fusnes.

Marchnadoedd ariannol yw ei prif faes ymchwil ac mae wedi cyhoeddi dros wythdeg o erthyglau ymchwil. Mae o wedi goruchwylio pymtheg o fyfyrwyr PhD i gwblhau doethuriaeth ac mae ganddo bump myfyriwr PhD presennol. Bu'n cyflwyno papurau ymchwil mewn nifer o gynhadleddau rhyngwladol ac mae'n hyfforddi myfyrwyr PhD ar gyflwyno a chyhoeddi eu gwaith ymchwil.

Bydd y gweithdy hwn o ddiddordeb i fyfyrwyr PhD a staff academiaidd sydd ar gychwyn eu gyrfa mewn unrhyw faes academiaidd. Cynigir cyngor ar gynllunio papur ymchwil ac ar fanteisio ar gyfleon i gyflwyno mewn cynhadledd.

### **Amcanion y gweithdy hwn yw:**

- Datblygu sgiliau perthnasol i ysgrifennu papur ymchwil
- Datblygu sgiliau ar gyfer paratoi cyflwyniad cynhadledd
- Cynnig technegau i ddenu adborth gan gynulleidfa

### **Cynnwys:**

1. Egwyddorion cyffredinol
2. Dewis y gynhadledd mwyaf perthnasol
3. Cyngor ar y broses o gyflwyno mewn cynhadledd
4. Agweddau ymarferol o baratoi cyflwyniad cynhadledd
5. Agweddau o gynnwys papur ymchwil
  - a. Y cwestiynau ymchwil a'r atebion
  - b. Cyfleu neges a gwreiddioldeb eich gwaith ymchwil
  - c. Cyflwyno canlyniadau ymchwil mewn modd effeithiol
6. Gwynebu'r her: amseru, crynhoi, safon, cynulleidfa
7. Denu sylw ac adborth.
8. Beth ddylwn i wneud ar ol y gynhadledd?

### **Ar ddiwedd y gweithdy hwn dylai hyfforddeion fod yn gallu:**

- Cynllunio y prif agweddau o bapur ymchwil
- Ystyried sut i gyflwyno eu hymchwil yn effeithiol mewn papur
- Paratoi gyda hyder ar gyfer cyflwyniad mewn cynhadledd

## 'Yr Ymchwilydd Ansoddol' - Dr Sara Wheeler

Mae Dr Sara Louise Wheeler yn Ddarlithydd Polisi Cymdeithasol i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym Mhrifysgol Bangor. Mae ganddi dros ddeng mlynedd o brofiad o weithio fel ymchwilydd ansoddol mewn gwahanol feysydd, megis cymdeithaseg, seicoleg, ac iechyd. Mae ei diddordebau ymchwil presennol yn cynnwys: cymdeithas sifil yng Nghymru; astudiaethau byddar; tinnitus; a'r methodolegau ansoddol arbrofol, megis 'Ethnograffeg Ymarferiad Dadansoddol Creadigol' (Creative Analytical Practice - CAP ethnographies), a'r Gwyddorau Cymdeithasol Perfformiadol (performative social sciences).

Gwefan staff: [http://www.bangor.ac.uk/so/staff/sara\\_wheeler.php.en](http://www.bangor.ac.uk/so/staff/sara_wheeler.php.en)

ResearchGate: [https://www.researchgate.net/profile/Sara\\_Louise\\_Wheeler](https://www.researchgate.net/profile/Sara_Louise_Wheeler)

Twitter: <https://twitter.com/serensiwenna>

Mendeley: <https://www.mendeley.com/profiles/sara-louise-wheeler/>

Mae ymchwil ansoddol heddiw yn trawsddisgyblaethol, amlddisgyblaethol ac yn rhyngddisgyblaethol (neu mae'n gallu bod!), ac yn cyfrannu at waith pwysig mewn meysydd ar draws y sbectwm, o fewn a thu hwnt i academia. **OND**

- Beth yn union yw ymchwil ansoddol?
- Beth yw ei darddiad a'i ffiniau (oes rhai)?
- Sut mae mynd ati i lunio prosiect ymchwil hydrin a gwerth chweil?
- Beth yw epistemoleg, ontoleg, paradeim a fframweithiau damcaniaethol ymchwil, a pa effaith dylent gael ar y dulliau rydym yn ei dewis?
- Dylwn ni wneud gwaith dadansoddol ar bapur neu gyda phe cyn cyfrifiadurol megis NVIVO? Am beth rydyn ni'n chwilio wrth ddadansoddi?
- Beth yw'r ffordd mwyaf effeithiol o gyflwyno'r gwaith gorffenedig - adroddiad steil gwyddonol, neu barddoneg/ethnodrama? Pa gyfnodolion dylid eu targedu gyda pha fodd o gyflwyno? Sut mae mesur/ sicrhau 'ansawdd'?
- A oes ffin niwlog rhwng cysyniadau o'r ymchwilydd a'r cyfranogwr, pwy piau'r stori, a pwy yw'r awdur(on) wedi i'r ymchwil ddod i ben?
- 

Os yw'r cwestiynau uchod o ddiddordeb i chi, ystyriwch fynychu'r gweithdy yma. Nid yw'r cyflwynydd yn honni ei bod hi'n gwybod yr atebion i gyd, nag ychwaith y byddwch yn ei ddarganfod yn ystod y gweithdy (efallai does yna ddim atebion 'cywir?'), ond mi fydd hi'n rhoi cyflwyniad cynhwysfawr ac yn hwyluso trafodaethau wrth i chi ystyried y materion hyn fel grŵp. Cewch gyfle i rannu pryderon ac i ofyn cwestiynau mewn awyrgylch cefnogol, wrth i chi ddysgu gan eich gilydd, trafod eich ymchwil a rhwydweithio.

O fynychu'r gweithdy hwn ddylai cyfranogion:

- Ddatblygu gwerthfawrogiad o ymchwil ansoddol fel maes eang
- Deall y dadleuon allweddol a medru ffurfio barn(au) amdanynt
- Teimlo'n hyderus wrth fynd yn ei blaenau fel ymchwilydd ansoddol

## **'Cyfrannu at waith tîm' - Nia Gwynn Meacher**

Mae gan Nia Gwynn Meacher nifer o flynyddoedd o brofiad mewn hyfforddiant rheolaeth a hyfforddi un i un i reolwyr mewn gwahanol sectorau. Mae Nia yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol (Datblygu) ym Mhrifysgol Bangor.

Amcanion y gweithdy hwn yw rhoi'r cyfle i adnabod arddulliau gweithio mewn tîm er mwyn deall sut yr ydym yn debyg ag yn wahanol i eraill, ac o ddeall hyn, sylweddoli sut gallwn gyfathrebu a gweithio'n fwy effeithiol ag eraill.

### **Cynnwys:**

1. Adnabod eich arddull mewn tîm.
2. Rhinweddau timau ardderchog.
3. Datblygu cynllun datblygu personol.

### **Ar ddiwedd y gweithdy hwn bydd hyfforddeion fod yn gallu:**

- Deall arddulliau personol o weithredu mewn tîm.
- Adnabod eu cryfderau ac elfennau i ddatblygu wrth weithio ag eraill.
- Deall beth yw rhinweddau timau ardderchog